

papur



priordy

Ganol gaeaf noethlwm
cwynai'r rhewynt oer,
ffridd a ffrwd mewn cloeon
llonydd dan y lloer:
eira'n drwm o fryn i dref,
eira ar dwyn a dôl,
ganol gaeaf noethlwm
oes bell yn ôl.



Christina Rossetti (1830-94) cyf Simon B Jones (1894-1964)
Caneuon Ffydd: 466

*Dewiswyd gan Bronwen Wilkins
Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn*

Rhifyn 328
PAPUR RHAGFYR 2019

Cyfarchiad gan ein Gweinidog

Coeden Nadolig - Pren neu Blastig?

MAE traddodiad y goeden Nadolig yn mynd yn ôl i'r wythfed ganrif ac i'r Almaen, pan welodd Sant Boniface baganiaid yn aberthu plentyn bach ger hen goeden dderw. Gafaelodd Boniface mewn bwyell a thorri'r goeden i lawr ac, er mawr syndod iddo, gwelodd goeden newydd yn tyfu oddi mewn i fonyn yr hen goeden - coeden fytholwyrdd. Gwelodd Sant Boniface y goeden fach fytholwyrdd yn arwydd o fywyd newydd ac o obaith newydd.



Flynyddoedd lawer yn ddiwrddarach, ym 1841 i fod yn fanwl gywir, daeth Albert, gŵr y Frenhines Fictoria, â'r goeden i wledydd Prydain o'r Almaen, a byth ers hynny mae gosod coeden adeg y Nadolig yn un o draddodiadau'r Wyl.

Un o uchafbwyntiau'r Nadolig i mi pan oeddwn yn blentyn oedd mynd gyda fy rhieni i goedwig Penlle'r-gaer i ddewis a phrynu coeden Nadolig. Byddem yn crwydo'r goedwig ac yn ceisio dewis 'ein coeden' am y flwyddyn honno. Byddai 'nhad wastad yn chwilio am un mor dal â phosib ond y gellid ei ffitio yn y tŷ heb i'r angel fechan druan a oedd yn treulio bob Nadolig ar ben y goeden orfod plygu'i phen o dan y nenfwd! Byddai mam yn mynnu cael coeden lai o faint ond un â bol yn fwy! Wedi setlo ar ba goeden fyddai'n ganolbwynt ein dathliadau am y flwyddyn honno, byddai rheolwr y goedwig yn cydio yn ei lif ac yn ei thorri a chlymu'i brigau ynghyd a'r tri ohonom wedyn yn straffaglu i'w chario a'i rhoi'n sownd ar do'r car cyn ei heglu hi adre. Rwy'n siŵr y byddai'r goeden wedi colli nifer o'i phigau yn y gwynt wrth inni ruo ar hyd yr M4!

Daeth y goeden blastig yn ffasiynol wedyn. Nid yr un wefr sydd i ddadbacio coeden o'i blwch ag sydd i'w thorri yn y goedwig!

Wel, eleni, rydym yn mynd i gael coeden Nadolig go iawn yn

Y Priordy am y tro cyntaf! Mae'r trefniadau ar y gweill.

Gobeithio y bydd y goeden yn harddu'r adeilad ac yn ychwanegu at naws yr Ŵyl. Mae'r Ŵyl hon yn un sy'n peri i ni ryfeddu fod Duw wedi dod i'n byd mewn baban bach.

Onid cofiwn nad dathlu genedigaeth unrhyw faban bach a wnawn, ond dathlu genedigaeth Gwaredwr y Byd. Roedd y groes yn taflu'i chysgod ar lwybr Iesu o'r foment y daeth i'r byd. Ni ellir gwahanu Bethlehem a Chalfaria; y Nadolig a'r Pasg, pren y preseb a phren y groes.



Wedi'r Nadolig, pan fydd hi'n bryd i ni dynnu'r goeden Nadolig i lawr, byddwn yn cadw coeden

Nadolig 'go iawn' Y Priordy, yn ei sychu ac yn creu croes ohoni ar gyfer dathliadau'r Pasg.

Dyna gysylltu pren y Nadolig â chroes y Pasg.

POB BENDITH dros yr Ŵyl.



Dymuna
Beti-Wyn, Elin a Sara
Nadolig Llawn a Bendithiol i bawb yn y Priordy
Diolch am bopeth yn ystod 2019.



Gweddiwn

Arglwydd Iesu,
yn ystod yr Adfent,
wrth i ni addurno'n cartrefi,
treulio amser gyda theulu a ffrindiau,
canu carolau cyfarwydd,
a chlywed unwaith eto hanes y geni,
helpa ni i'th geisio di o'r newydd,
wrth i ni baratoi at dy ddyfodiad y Nadolig hwn.



Amen

Mis Rhagfyr	Darlleniad
Wythnos 1 Adfent 1	Eseia 2: 1-5
Wythnos 2 Adfent 2	Eseia 11: 1-10
Wythnos 3 Adfent 3	Eseia 35: 1-10
Wythnos 4 Adfent 4	Eseia 7: 10-16
Noswyl Nadolig	Eseia 9: 2-7
Bore Nadolig	Luc 2: 1-20
Gwyl San Steffan	Actau 6: 8-7, 60
Sul ola'r flwyddyn	Mathew 2: 13-23

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

SULWYN A GLENYS THOMAS

JOHN A CARYS GREEN

YANN IESTYN

(Lesneven, Llydaw)

a

DI-ENW

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

GAIR O DDIOLCH

Dymunwn fel teulu'r diweddar Barchedig W J Edwards, Bow Street, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a gawsom ar ôl colli gŵr, tad a thaid annwyl. Gwerthfawrogwn hefyd y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Feddygfa Borth ac Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020.

DIFFIBRILIWR

Mae'r Priordy wedi prynu diffibriliwr allanol awtomataidd newydd. Peiriant cyfrifiadurol yw hwn i'w ddefnyddio mewn achosion o ataliad sydyn ar y galon y tu allan i'r ysbyty. Bydd yn cael ei osod ar wal allanol y Tŷ Capel fel y bo at wasanaeth ein cymuned leol yn ogystal ag aelodau'r capel.



Rydym yn hynod o ddiolchgar i Betsan James am y rhodd hael a dderbyniwyd ganddi er cof am ei thad, y diweddar Barchedig Denzil James, sy'n cwrdd nid yn unig â chost y peiriant ond hefyd y cwpwrdd pwrpasol i'w gadw ynddo.

Mae dod i wybod sut i ddefnyddio'r peiriant yn bwysig iawn a threfnir hyfforddiant i'r diben hwn. Diolch hefyd i'r Dr Angharad Wyn am ei chymorth arbennig gyda'r trefniadau.

GWAITH ADNEWYDDU

Byddwch wedi sylw bod sgaffaldiau wedi'u gosod yng nghefn a thu blaen y capel yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Yng nghefn y capel roedd angen ailbwyntio'r wal ond, yn anffodus, wrth lanhau crac gwelwyd gwendid wedi'i achosi gan hen biben y tu ôl i'r crac a arferai fynd â mwg o'r ystafell wresogi. Golygodd osod lintel concriid ac ailadeiladu'r rhan honno o'r wal i'w gwneud yn ddiogel.



Yn nhu blaen y capel (ar yr ochr dde wrth wynebu'r adeilad), roedd angen adnewyddu'r pren dan y bondo a'i baentio.

Diolch i Huw Jones (Cadeirydd) ac Is-bwyllgor yr Adeiladau am roi sylw i'r materion hyn.

HWYL DROS YR ÂWYL!

CYMRU O'R AWYR – BETH YW'R LLEOEDD?

	
1	
	
2	
	
3	
	
4	



5



6



7

***Beth am roi cynnig arni dros y Nadolig?
Atebion yn ein rhifyn nesaf***

Diolch i Gareth Gravell am y gwaith paratoi

AR Y WE: www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

Glenys Thomas.....

NADOLIG FY MHLENTYNDOD



Nadolig yn y Wlad



I rywun fel fi sydd wedi gweld fy mhlant a'm hwyrion yn boddi dan bwysau masnachol a rhialtwch ein Nadoligau diweddar, mae meddwl am symlrwydd a diniweidrwydd yr Ŵyl yn Llangwrddon (neu Llangwryfon i bobl ddŵad) 70 mlynedd yn ôl yn syfrdanol.



Bryd hynny, pentre bach, gwledig, gydag eglwys, capel, ysgol, siop ac ychydig o dai oedd Llangwrddon - wyth milltir o dref fawr Aberystwyth.

Eto roedd y Nadolig yn bwysig, a hynny ar ôl y rhyfel a phopeth yn fwy syml rywsut. Dim actio stori'r Geni yng nghapel Tabor, ond darlenniadau a chanu carolau oedd yn y gwasanaethau. Dim Siôn Corn, dim coeden liwgar, dim parti.



Yr un symlrwydd yn yr ysgol gynradd.



Yno roedd cerddoriaeth yn bwysig gan fod gŵr y brifathrawes yn athro cerdd y sir. Ein hysgol ni oedd y gyntaf yn y sir i gael cerddorfa. Felly roedd y gyngerdd Nadolig yn ddigwyddiad mawr a chredwch chi byth ro'n i'n chwarae'r ffidil!

Byddem yn canu caneuon Nadolig ac adrodd storïau. Unwaith eto doedd dim actio stori'r Geni: ches i'r un profiad o actio tan i fi fynychu'r ysgol Ramadeg yn Ardwyn. Dim Mair nag angel yn fy mhrofiad i felly.



Er nad oedd coeden a goleuadau yn yr ysgol roeddem yn gwneud llawer o addurniadau fel cadwynau bychain o bapur lliwgar a'u gludo at ei gilydd a'u hongian o gwmpas

yr ystafell a hefyd lanterni. Yn rhyfedd iawn, synnais o weld fy ŵyr bach i wedi gwneud yr union fath o lantern yn ysgol lolo Morganwg!!



Digwyddiad mawr y Pentre oedd y "*Christmas Tree*" a gynhelid ryw wythnos cyn y diwrnod mawr yn y "*Church Hall*"- noson gymdeithasol i'r teulu cyfan gyda bwyd, gemau, chwaraeon ac yn goron ar y cyfan "Santa Clôs" yn cyrraedd gyda'i sach fawr ac anrheg i bob plentyn.

Roedd Santa yn cyrraedd pob tŷ a fferm ond prin oedd yr anrhegion - orennau, afalau a chnau wedi eu casglu a'u sychu'n lleol. Rown i'n lwcus gan fod gen i ewythyrod a modrybedd yn byw yn Llundain ac wedi gorfod symud yno i chwilio am waith. Rwyf yn cofio cael doli a llestri bach i wneud te a'r hyn oedd Mam yn ei wneud oedd eu cuddio a'u cyflwyno fel anrhegion Santa.



Roedd coginio at y Nadolig yn bwysig iawn. Byddai Mam yn gwneud nifer o bwdinau a'u berwi am oriau. Byddai'r gacen yn cael ei pharatoi'n gynnar er mwyn rhoi digon o amser i roi'r *marzipan* a'r *icing* arni a digonedd o addurniadau ar ei phen hi. Byddai'r *mince pies* yn cael eu gwneud yn agosach at y diwrnod mawr.



Ac ar y diwrnod hwnnw Ffowlyn oedd yn cael ei goginio - dim sôn am dwrci, ond roedd y ffermydd yn paratoi gwyddau.

Digon tawel, fel heddiw mewn gwirionedd, oedd y diwrnod mawr. Ond ar nos Nadolig cynhelid "Whist Drive" fawr yn y "*Church Hall*" ac erbyn i fi gyrraedd fy ardegau roedd yn dipyn o achlysur cael chwarae gyda'r oedolion. Erbyn hynny roedd newidiadau mawr ar droed gyda thwrcïod a siocledi yn wobrwyo i'r enillwyr.



Wrth gofio 'nôl fel hyn rwy'n dal i deimlo'r "*magic*" a gwerthfawrogi'r hyn brofais i yn Llangwrddon.

**I'R DYDDIADUR
UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**



**OEDFA'R LLYWYDD NEWYDD
Y PARCHEDIG BETI-WYN JAMES
BORE SADWRN 27 MEHEFIN 2020 - 11.30 Y BORE
CAPEL NEWYDD, LLANDEILO**

BORE COFFI MACMILLAN

**Braf deall gan Alison Parsons i Fore Coffi
Macmillan a gynhaliwyd yn y Festri ym mis Medi
ac sy'n rhan o Fore Coffi Mwya'r Byd godi
£1,190.49.**




**Mae hynny'n golygu fod y cyfanswm sy wedi'i godi dros y
blynnyddoedd drwy'r ymgyrch arbennig hon yn £12,659.87.
Ardderchog yn wir a llongyfarchiadau mawr i Alison a'i thîm**

CAPEL PENYGRAIG

**Croesyceiliog, ger Caerfyrddin
GWASANAETH PLYGAIN TRADDODIADOL
Capel Penygraig
Dydd Sul 8 Rhagfyr 2019 – 6.30
Croeso cynnes i bawb
*Casgliad at Eisteddfod yr Urdd Sir Gâr 2021***



BLYCHAU YN Y CYNTEDD



**COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS
YN Y CYNTEDD**

DOS, DYWED AR Y MYNYDD

EMYN-DÔN yn wreiddiol o draddiad Affro-Americanaidd yw *Dos, dywed ar y mynydd*. Caiff ei hystyried yn garol Nadolig gan fod y geiriau gwreiddiol yn dathlu geni Iesu.



Cyhoeddwyd am y tro cyntaf mewn casgliad o'r enw *Folk Songs of the American Negro* (1907) gan John

Wesley Work Iau (1873-1925) a'i frawd Frederick J Work (1871-1925). Yn hannu o Nashville, Tennessee, roedd y ddau wedi ymroi i gasglu, trefnu a chyhoeddi emyn-donau a chaneuon y caethweision Affro-Americanaidd. Doedd hi ddim yn dasg hawdd gan fod y caneuon yn cael eu trosglwyddo o blanhigfa i blanhigfa ac ychydig yn unig yn cael eu rhoi ar bapur.

Mae sawl cyfuniad gwahanol o benillion yr emyn-dôn *Dos,*



dywed ar y mynydd ar gael. Ceir cyfieithiad o un o'r cyfuniadau mwyaf adnabyddus yn *Caneuon Ffydd*. Priodolir y ddau bennill cyntaf yn y fersiwn wreiddiol yn Saesneg i **John Wesley Work Iau**, tra bo awdur y ddau bennill arall yn anhysbys. Traddodiadol yw geiriau'r cytgan. Troswyd y gwaith cyfan i'r Gymraeg gan Dafydd Owen.

Yn *Carolau a'u Cefndir*, E Wynne James, ceir cyfieithiad o bedwar pennill gwreiddiol John Wesley Work Iau gan Edmund T Owen (1935-2017), pregethwr, awdur a chyfieithydd a brodor o Waun-y-frân ym mhlwyf Llangyndeyrn, Cwm Gwendraeth. Ond defnyddir y cytgan a gyfieithiwyd gan Dafydd Owen.

Mae'n ganmlwyddiant geni'r bardd-bregethwr Dafydd Owen eleni. Fe'i ganed yn y Rhiw, Bylchau, ar 12 Mai 1919. Ar ôl astudio ym Mhrifysgol Bangor a Choleg Bala-Bangor bu'n llyfrgellydd yn Nimbych cyn mentro i'r weinidogaeth. Bu'n weinidog rhwng 1950 a 1973 yn Sychdyn, yr Wyddgrug, Bwlchtocyn ac Aber-soch ym Mhenrhyn Llŷn a **Gibea**,

Brynaman. Wedi hynny, bu'n addysgu ym Mhrestatyn a Glan Clwyd yn Llanelwy cyn dod yn gyfieithydd gyda Chyngor Sir Clwyd.



Enillodd y Goron yn Eisteddfod

Genedlaethol Bangor ym 1943 a'r Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Hwlfordd ym 1972. Bu'n golygu colofn farddol *Y Tyst*. Roedd ei destun ymchwil MA ar *Fywyd a Gwaith Elfed*.

Cyhoeddodd lyfrau ar Elfed, Cynan a Waldo Williams a chyfrol o emynau *O Dŷ i Dŷ* ar y cyd â'i chwaer, Jean Mary

Hughes, a'i frawd, Y Parchedig W T Owen, un o gyn weinidogion y Tabernacl, King's Cross, Llundain. Ymddangosodd ei hunangofiant *Yn palu wrtho'i hunan* ym 1993.


Mae tri ermyn ganddo yn *Caneuon Ffydd*, sef *Diolch am roddi imi'r bore* (125) – cyfieithiad ar y cyd ag Aled Lloyd Davies o emyn Martin G Schneider), *Dwylo ffeind oedd dwylo* (372 - cyfieithiad o emyn Margaret Cropper) a'r garol



dan sylw gennym, *Dos, dywed ar y mynydd* (476)..

Mae nifer o berfformwyr wedi canu a recordio *Dos Dywed ar y mynydd* dros y blynyddoedd. Ceir datganiad o'r garol gan Gôr Meibion Llanelli yn yr albwm *Gwawr y Geni* (2010).

Fel teyrnged i Dafydd Owen ym mlwyddyn canmlwyddiant ei eni ac fel rhan o'n dathliadau Nadolig ni, dyma ddyfynnu'r garol yn llawn:



Dos, dywed ar y mynydd




*Dos, dywed ar y mynydd. ledled y byd ac ym mhob man,
dos, dywed ar y mynydd am eni Iesu Grist.*

Tra gwyliai y bugeiliaid y praid drwy'r noson hir,
yn syth o'r nef disgleiriodd goleuni dwyfol, clir.

A hwythau, wedi'i weled, aent ar eu gliniau 'nghyd,
ac yna mynd ar unwaith i geisio Prynwr byd.

Pan geisiais innau Iesu, fe'i ceisiais nos a dydd,
erfyniais am ei gymorth, arweiniodd fi yn rhydd.

Fe'm gwnaeth yn wylwr cyson ar furiau dinas Duw.
a'm rhawd, fi Gristion eiddil, mor ddedwydd, dedwydd yw.



GWYN Y CARW CLOFF

Tudur Dylan Jones

*Stori am Greta'n darganfod ac yn
helpu carw bach cloff yn y
goedwig a'r sioc a gaiff yn
ddiweddarach pan ddaw at ei
fffenestr ar Noswyl y Nadolig a
mynd â hi ar antur gyda Siôn Corn*

£6.99 (Gomer)

FFEITHIAU ANNISGWYL YN NYHMOR YR EWYLLYS DA

A wyddech chi fod cyfoethogion Prydain yn rhoi llai i elusen nag oedden nhw bum mlynedd yn ôl ac nad yw'r mwyafrif ohonynt yn rhoi unrhyw beth o gwbl?

Mae dadansoddiad o roddion i elusennau ar ffurflenni treth hunanasesu'n dangos na chyfrannodd bron i ddau draean o bobl sy'n ennill dros £250,000 unrhyw beth i achosion da y llynedd. At ei gilydd, ni chafwyd unrhyw beth gan bron i filiwn o bobl yn ennill mwy na £100,000.



Mae'r data'n dangos fod Prydeinwyr sy'n ennill arian mawr yn cyfrannu canran llai o'u hincwm i elusen na'r rhai sy'n llai ffodus eu byd. Cyfrannodd pobl sy'n ennill mwy na £250,000 ar gyfartaledd 17% o'u hincwm y llynedd mewn cymhariaeth â 31% gan y rhai sy'n ennill llai na £50,000.

Mae'n wir dweud fod y cyfanswm a roddir i elusennau wedi cynyddu er 2014 a hynny oherwydd bod ychydig o gyfoethogion yn cyfrannu symiau uchel iawn. Eto, mae Prydeinwyr o bob incwm yn rhoi llai erbyn hyn, gyda chyfraniadau gan y cyfoethog yn cwmpo'n gyflymach - i lawr 12% dros y pum mlynedd diwethaf o gymharu â chwymp o 4% ymhlith y rhai llai gwell eu byd.

Mae'r *Beacon Collaborative*, elusen sy'n bodoli i hyrwyddo a dathlu dyngarwch yn y Deyrnas Unedig, yn credu bod pedwar rheswm pam nad yw Prydeinwyr cyfoethog yn rhoi digon:

- Mae cyfoethogion heddiw wedi'u codi mewn Gwladwriaeth Les ac yn talu trethi uchel ac yn credu y dylai'r llywodraeth felly ofalu am y tlawd.
- Does dim strwythur datblygiedig yn ei le ym Mhrydain i annog cyfoethogion i roi. Yn yr Unol Daleithiau mae'r yngynghorydd ariannol bob amser yn gofyn i'r sawl sy'n gwerthu busnes ystyried beth i'w wneud mewn cyswllt â dyngarwch. Un o bob deg ymgynghorydd ariannol sy'n gwneud hynny yn y Deyrnas Unedig.

- Mae elusennau'n wael am ddatblygu perthynas â'r cyfoethog. Mae'r rhai sy'n rhoi'n cwyno'n aml na chawsant ofyn iddynt yr eilwaith na derbyn diolch.
- Mae diffyg pwysau arnynt gan gyfoedion eraill sy'n gyfoethog. O ganlyniad, maen nhw'n anghofio'r cysyniad fod ganddynt ddyletswydd i gymdeithas os ydynt yn gwneud llawer o arian.

Mae personoliaeth cyfoethogion a'r boblogaeth ehangach yn ddigon tebyg il'w gilydd. Dyw pawb ddim yn mynd i roi ond mae rhyw draean yn barod i wneud hynny ac ar hyn o bryd dim ond rhyw 10% o'r mwyaf cyfoethog sy'n gwirioneddol roi. Pe bai modd dyblu hynny, byddai'n golygu codi £2 biliwn ychwanegol.



MYNEGAI Haelioni

Canran Incwm Crynswth a Roddir i Elusen 2017-18

£0- £50		
		3.1%
£50K - £100K		
		2.2%
£100K - £150K		
		1.6%
£150K - £200K		
		1.5%
£200K - £250K		
		1.5%
Dros £250K		
		1.7%
Cyfanswm – Pob Grŵp Incwm		
		2.6%

Ffynhonnell
The Tmes a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThem)

BORE COFFI THERAPIES UNITE

Bore Sul, 3 Tachwefdd 2019



DIOLCH YN FAWR

Hoffwn ddiolch i bawb a ddaeth i Fore Coffi *Therapies Unite* ar Ddydd Sul 3 Tachwedd. Diolch hefyd i Beti-Wyn am y cyfle i gynnal y bore llwyddiannus hwn. Ro'n i'n codi arian at yr elusen rwy'n gwirfoddoli iddo fel ffisiotherapydd, sef *Therapies Unite*. Mae *Therapies Unite* yn



elusen wedi'i sefydlu yn Puerto Vallarta, Mecsico ac yn gweithio gyda phlant ac oedolion ag anableddau gwahanol, sy'n byw heb offer ac adnoddau syml i'w helpu gyda'u bywydau bob dydd. Mae'r elusen yn

darparu adnoddau, offer a therapi na fyddai pobl yn gallu'u hyfforddio fel arfer.

Diolch yn fawr iawn i chi unwaith eto.

Catrin Wyn Davies

MERCHED Y WAWR CAERFYRDDIN

PLYGAIN

NOS SUL - 15 RHAGFYR 2019 - 7.30



**CAPEL PENUEL,
CAERFYRDDIN**



RHAGLEN: £3

*Yr elw at Hafan Glyd, Canolfan
Dementia, Caerfyrddin*

CYSTADLEUAETH PÊL-DROED A PHÊL-RWYD MIC



**Dydd Sadwrn 18 Ionawr 2020
Canolfan Handden Caerfyrddin**

**Pêl-rwyd – bore
Pêl-droed – prynhawn**

Rhagor o fanylion – Beti-Wyn / Luned Voyle



TUDALEN BLAEN

Rheswm Bronwen Wilkins dros ddewis *Ganol gaeaf noethlwm*.....

Yn fy marn i, does yna'r un garol Nadolig
yn well na hon am greu naws
Nadoligaidd, hynafol, tywyll, oer a
gwneud i ni feddwl am eistedd o flaen



coelcerth o dan coed yng ngolau'r tân,
y goeden ac addurniadau lliwgar a
disglair y
Nadolig.

Chrisstina Rossetti

gyfansoddodd y
geiriau a

Gustav Holst y
gerddoriaeth, ac



mae'r berthynas rhwng y geiriau a'r miwsig
yn ysgytwol.



Does yna ddim sôn am faban na stabl nac
angel yn y pennill cyntaf ond yn y ddau bennill
nesaf, mae Rossetti "*yn llwm a thlawd ei
byd*" yn dyfalu beth fedr ei roi'n anrheg i'r
baban Iesu, ac mae hi'n penderfynu rhoi ei
"*bywyd oll*"

Y Parchedig Seimon B Jones Peniel
gyfeithodd y geiriau i'r Gymraeg, ac er
syndod i mi fe ddarllenais yn *Cydymaith
Caneuon Ffydd* iddo wneud hynny ar gais

Ernest Evans, prifathro'r ysgol gynradd, er mwyn
ei dysgu i'r plant oedd yn yr ysgol ar yr adeg hynny. Mae'n bosib
felly mai dyna lle clywais i'r garol hon gyntaf, a mentraf ddweud
fod yna un aelod arall yn y Priordy'n ddisgybl yn ysgol Peniel ar yr
un adeg, "*oes bell yn ôl*", ond dd'weda i ddim!

Y GYMDEITHAS

Nos Lun 4 Tachwedd 2019

Beth well i gychwyn rhaglen y Gymdeithas y tymor hwn na chroesawu tri aelod a fagwyd yn y Priordy gyda stôr o wybodaeth a hanesion a straeon ganddynt am eu magwraeth yno. Ar y dechrau darllenodd Gwynfor Davies y ganfed Salm a gosod naws arbennig ar gyfer y noson.



Y tri “phlentyn” oedd **Sulwyn Thomas, Rhian Evans a Dai Lloyd** ac



yn eu holi roedd ein Gweinidog. Dechreuodd y cyflwyniad wrth i'r tri adrodd hanes sut y daethant yn aelodau yn y Priordy dan weinidogaeth Y Parchedig WB Griffiths. Sulwyn yn byw yn Heol y Prior yn y dref ond yn symud i

Lanllwni am gyfnod cyn dychwelyd i Gapel y Priordy. Rhian yno'r un pryd - ei mam o Fotwnog yn wreiddiol



ac wedi dod i weithio i Gaerfyrddin a'i thad o Landysul. Mae Rhian wedi parhau'n aelod yn Y Priordy gydol ei hoes. Dai wedi'i godi yn Y Priordy a'i deulu o Fydroilyn o ochr ei fam a Llanyby o ochr ei dad. Symudodd i Ddolgwili yn 1946 ac mae wedi bod yno ers hynny.

Pwynt diddorol a godwyd gan Beti-Wyn oedd mai mam Eglwys Y Priordy yw Ebenezer Abergwili ac i'r **Parchedig Cadfan Jones** y Gweinidog, weld bod angen Capel Cymraeg yn agosach at yr dre. Felly dyma ddechrau ar y gwaith o sefydlu eglwys ar safle'r Priordy – sied sinc i gychwyn ond wedi codi morgais yn enw'r diaconiaid, dyma ddechrau'r gwaith o adeiladu'r capel fel y mae heddiw.

Aed ymlaen drwy ddangos nifer o luniau diddorol a Sulwyn, Rhian a Dai yn medru adnabod sawl diacon o ganol y 50au a fu'n ddylanwad mawr ar y tri ifanc. Cawsom sawl hanesyn diddorol a doniol iawn am y rhain.



Cynhaliwyd yr Ysgol Sul yn y prynhawn bryd hynny a chafwyd hanesion am rai cyn-athrawon. Sulwyn wedyn yn cofio bod rhaid adrodd mwy nag un adnod a Dai hefyd yn sôn am ddysgu adnodau ac yn cofio mam Sulwyn yn athrawes.


Cafwyd hanesion am y gwasanaethau Nadolig a'r cyngherddau a lwyfanwyd yn y Ffestri gyda'r holl blant yn cymryd rhan a mam Rhian yn eu hyfforddi. Adroddodd Rhian hanes y Parchedig Jim Jones fel gweinidog a'i ffordd dyner a charedig o ddysgu a pharatoi ar gyfer y cwrdd plant. Roedd cyfnod y Pasg hefyd yn bwysig a nifer o blant yn cael dillad newydd ar gyfer yr achlysur.

Dangoswyd lluniau mwy diweddar wedyn o gyfnod y Parchedig Alun Page ac eto nifer o aelodau'n cael eu hadnabod, fel Angharad Mair, Elin Dalis, Prys Jenkins, Iwan Prys, Elinor Wyn - i enwi dim ond rhai..

Roedd yna nifer o weithgareddau diwylliadol fel y cwrdd chwirydd, sesiynau Hawl i Holi a fyddai'n gallu troi'n ddadl fawr weithiau a hefyd y Gymdeithas Ddiwylliadol.

Parhaodd yr hwyl a'r chwerthin wrth hel atgofion cynnes a braf am y dyddiau a fu.

Noson hyfryd felly a oedd yn procio cof nifer fawr yn y gynulleidfa niferus a ddaeth i gefnogi Sulwyn, Rhian a Dai wrth iddyn nhw hel atgofion. Diweddwyd gyda phaned a diolch i'r gwragedd a fu'n paratoi.



BYW FFWL PELT

Alun Lenny

*Hunangofiant difyr gydag adran
luniau sy'n dilyn un o
newyddiadurwyr mwyaf
profiadol Cymru yn ystod
newidiadau enfawr yn ein hanes*

Y Lolfa: £9.99

**DAI LLOYD, SULWYN THOMAS A RHIAN EVANS
YN Y GYMDEITHAS**



AGOR Y LLYFR YN YSGOL Y DDERWEN



Ifanc@Priordy

Apêl Anrhegion Nadolig

Byddwn yn cefnogi Apêl Anrhegion Nadolig Cyngor Sir Gâr eleni eto. Manylion mewn man arall yn y papur hwn.



Gwasanaeth Nadolig Y Priordy

Prynhawn Sul, 8 Rhagfyr
2 o'r gloch (ymarfer am
10 y bore) Paned a mins
peis i ddilyn.
Croeso i bawb!



Ymarferion y Gwasanaeth Nadolig

Mae angen i bawb sy'n cymryd rhan yn y gwasanaeth wneud pob ymdrech i fod yn bresennol yn yr ymarferion os gwelwch yn dda, er tegwch i'r sawl a fydd yn eich dysgu ac i weddill y plant a'r bobl ifanc.

Os na fyddwch yn gallu bod yn bresennol ar unrhyw Sul arbennig, rhowch wybod o flaen llaw i'r sawl sydd yn eich dysgu.

	Ysgol Sul a	PIP
Rhagfyr 1	Ymarfer yn y Capel	Ymarfer yn Penuel
Rhagfyr 8	Ymarfer yn Capel am 10 Oedfa Nadolig am 2	Ymarfer yn y Capel am 10 Oedfa Nadolig am 2
Ysgol Sul yn cau tan Ionawr 12	Ond croeso i bawb ddod i'r cwrdd!	Digon o amrywiaeth o oedfaon dros yr Ŵyl

Bore Nadolig

Oedfa Deulu (fer) am 9 o'r gloch. Ffordd ardderchog o ddechrau'r diwrnod mawr! Os bydd Siôn Corn wedi galw, dewch ag un o'ch anrhegion Nadolig i'r cwrdd!



Nadolig Llawen i chi i gyd! Beti-Wyn

OEDFA GYMUN A CHWRDD PLANT TACHWEDD DERBYN AELODAU NEWYDD



ADRAN FFYNNON-DDRAIN



RHAN O'R GYNULLEIDFA




CWRDD PLANT MIS TACHWEDD

CAFWYD bore byrlymus a bywiog yn y capel ar Ddydd Sul 3 Tachwedd yn y Cwrdd Plant arbennig i ddathlu Sul yr Urdd. Hyfryd oedd gweld llawr y capel dan ei sang. Roedd hi'n fore prysur i'r eglwys rhwng derbyn saith aelod newydd a chroesawu Adran Ffynnon-ddrain i'n plith.



Dechreuodd y cwrdd gyda Beti-Wyn yn croesawu pawb a thrwy gyd-ddarllen Salm fel cynulleidfia. Daeth Lliwen i gyhoeddi'r emyn cyntaf yn araf a chlir sef emyn 416 '*Y mae i'n Waredwr*' gyda Band y Priordy yn cyfeilio'n sionc yn ôl yr arfer. Ar ôl y cyhoeddiadau fe fu lestyn, Ifan, Cadi a Rhys yn gwneud y casgliad. Yna canwyd yr ail emyn, sef emyn rhif 800 '*Un cam bach ar hyd y byd yr af*' a'r tro hwn ymunodd y plant yn y cyfeiliant drwy chwarae eu hofferynnau taro. Cafwyd canu brwd a chyfeiliant da gan y band taro.



Yn dilyn yr emyn daeth Ethan a Gwenan i'r pulpud i sôn ychydig am hanes mudiad yr Urdd a'i bwysigrwydd yn hyrwyddo defnydd yr iaith Gymraeg ymhlith pobl ifanc. Wyddech chi fod 53,000 o blant a phobl ifanc dan 25 oed yn aelodau o'r Urdd, 305 o staff yn gweithio i'r Urdd, 10,000 o wirfoddolwyr a 900 o ganghennau. Mae'r Urdd a sefydlwyd gan Syr Ifan ab Owen Edwards ym 1922 i amddiffyn yr iaith Gymraeg wedi datblygu'n aruthrol dros y blynyddoedd i fod yn fudiad deinamig a chyfoes. Dyma'r mudiad mwyaf i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Cafwyd cyflwyniad fideo ar y sgrin yn dangos gweithgarwch yr Urdd i gyfeiliant cân '*Hei Mistar Urdd*'.



Mae 200 o ganghennau cymunedol yr Urdd yn bodoli yng Nghymru ac un sy'n cwrdd yma yn nhref Caerfyrddin yw Adran Ffynnon-ddrain. Croesawyd hwy ymlaen i flaen y capel i gyflwyno eitem. Canon nhw gân hyfryd, '*Pan ddaw yr haul i'n deffro ni*', dan arweiniad Lleucu Edwards.

Yn dilyn y canu swynol ddaeth Efa ymlaen i ddarllen gweddi. Plant oedd thema'r weddi a diolchodd i Dduw am roi cyfle i blant yn

y byd - cyfle iddynt ddatblygu'u doniau a chystadlu a bod yn ffrind i Iesu. Yn ogystal, cofiwyd am y plant hynny sy'n cael bywyd anodd yn byw mewn tlodi a rhyfel gan ddymuno heddwch i bob un ohonynt.

Wedi'r weddi canwyd emyn rhif 832 '*Dysg i mi garu Cymru*' yna gwahoddodd y Gweinidog y plant i ddod i flaen y capel. Dechreuodd Beti-Wyn ei sgwrs drwy sôn am ei hatgofion hi o'r Urdd, pan oedd hi'n blentyn ac yn aelod. Bu ar drip cofiadwy i Langrannog pan oedd ym mlwyddyn 6 Ysgol Lôn Las. Dangosodd fat diod (coaster) yr Urdd a brynodd pan oedd yn blentyn, hen fathodyn yr Urdd a record sengl gwreiddiol o gân Mistar Urdd, ymhell cyn dyddiau'r cryno ddisgiau! A phwy all anghofio'r trôns Mistar Urdd enwog a'r bathodynau bachog hynny yn datgan i weddill Cymru '*Rwy'n gwisgo trôns Mistar Urdd!!*' Pwysleisiodd yr atgofion hyfryd oedd ganddi am yr Urdd a chymaint ddylen ni werthfawrogi'r mudiad a bod yn falch ohono. Mae'n bwysig dathlu Sul yr Urdd er mwyn helpu a hybu'r iaith Gymraeg. Atgoffodd ni mai un neges syml ond pwysig sydd gan yr Urdd ac mae'r neges honno wedi'i chwmpasu yn arwyddair a logo'r Urdd, sef y coch, gwyn a'r gwyrdd – Cymru, cyd ddyn a Christ. Y GWYRDD yn symbol o dir ffrwythlon Cymru, y gwaed COCH yn ein hatgoffa i fod yn ffyddlon i'n cyd-ddyn a'r GWYN yn symbol o burdeb a daioni Crist a bod yn ffyddlon iddo.



Yn dilyn yr anerchiad canwyd emyn rhif 393 '*Iesu Geidwad bendigedig*' a chawsom y pleser o fod yn dystion i dderbyn saith o aelodau'r Ysgol Sul yn aelodau llawn o'r eglwys. Rydym fel eglwys yn llawenhau bod Catrin, Carina, Gwenan, Betsan, Elain, Gwenllian a Gareth wedi'u derbyn i'r Priordy a gobeithiwn y bydd yr eglwys yn rhoi goleuni ac arweiniad i'r saith wrth iddynt droedio llwybr bywyd.



Ar ôl i ni dderbyn y Cymun canwyd yr emyn olaf sef rhif 627 '*Fe chwythodd yr awel*'.

CAFWYD bore bendigedig yn dathlu'n Cymreictod a'n hieuenctid. Roedd yn wasanaeth byrlymus a hapus i groesawu aelodau ifanc newydd ac i'n hatgoffa ni gyd fod y dyfodol mewn dwylo diogel, dwylo llawn gobaith a chariad ein pobl ifanc yn ein harwain at Grist.

Stampiau Nadolig 2019

Cofiwch ofyn amdanynt!



Ar drothwy Nadolig 2018, roedd galw ar y Post Brenhinol i foderneiddio dyluniad ei stampiau Nadolig Beibliadd gan fod stampiau seciwlar yn prysur gael y gorau arnynt am y tro cyntaf. Roedd data'n dangos fod tua chwech ym mhob deg stamp sy'n cael eu prynu gan y cyhoedd yn rhai seciwlar. Roedd hynny i fyny o bedwar ymhob deg bum mlynedd cyn hynny, yn ôl Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri sy'n cyflenwi stampiau i swyddfeydd ar draws y Deyrnas Unedig.

Dywedodd Tom Dieppe, pennaeth polisi cynhoeddus gyda *Christian Concern*, ar y pryd fod llawer yn stori'r Nadolig a allai fod yn weledol. Mae gennych y brenhinoedd, y bugeiliaid, y preseb ac ymddangosiad yr angylion. Mae stori'r Nadolig yn annog creadigrwydd. Holai a yw artistiaid y stampiau seciwlar yn well, efallai, ac yn fwy creadigol na'r rhai sy'n dylunio stampiau crefyddol! Mae'n sefyllfa siomedig. Efallai bod stampiau seciwlar yn cyfleu stori'r Nadolig mewn dull mwy

hudolus. Roedd o'r farn fod artistiaid crefyddol yn ceisio gwneud y Nadolig yn rhywbeth mwy difrifol - portreadau o Siôn Corn yn gwenu ac yn hapus a'r rhai o Fair yn dal babi'n llai deniadol.


Yn ôl y Swyddfa Post, mae dyluniadau gwefreiddiol eleni'n cael eu cyflwyno mewn dull neilltuol o ganlyniad yn rhannol i'r tîm dylunio o fri rhyngwladol – y gŵr a'r wraig Hari a Deepti, Mumbai, India.



Mae prif ffocws y stampiau ar y cyswllt grymus sydd rhwng golau a thymor y Nadolig, gyda phob stamp yn seiliedig ar bresenoldeb golau'n tywynnu'n gynnes drwy haenau o bapur wedi'u cerfio'n fain ac yn darlunio cymeriadau a themâu perthnasol i Stori'r Geni o bersbectif newydd a syfrdanol. Yn ddiamau, mae'r stampiau'n ddeniadol ac yn werth eu cefnogi!



**Y dyddiadau postio olaf a argymhellir er mwyn i
bost gyrraedd mewn pryd ar gyfer y Nadolig yw:
Dydd Mercher 18 Rhagfyr ar gyfer post Ail
Ddosbarth a
Dydd Gwener 20 Rhagfyr ar gyfer post
Dosbarth Cyntaf**



Cwsg – am dro ac yn ôl’.
Menna Elfyn

*Cyfrol newydd arbennig sy'n dathlu sut
rydym yn treulio hanner ein hamser.*

£9.99 (Gwasg Gomer)

**PRYSURDEB MAWR YN Y FESTRI WRTH YMARFER AR
GYFER Y GWASANAETH NADOLIG**



**CYFLWYNO 241 PÂR O SBECTOLAU I ELUSEN *VISION AID*
DRWY OPTEGWYR CELTIC, CAERFYRDDIN, YN DILYN EIN
HAPÊL DDIWEDDAR.
DIOLCH I BAWB AM GEFNOGI**



CYNHADLEDD HEDDWCH YNG NGHAERDYDD

DDYDD MERCHER, 6 Tachwedd aeth chwe disgybl Blwyddyn 13 o Bwyllgor Heddwch Ysgol Bro Myrddin i Dŷ Hywel yng Nghaerdydd ar gyfer cynhadledd heddwch wedi'i threfnu gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru. Wedi cyflwyniad byr yn sôn am rôl Cymru a'i phobl wrth geisio sicrhau heddwch

rhyngwladol, cafwyd cyfle yn fyr i edrych o amgylch adeilad y Senedd, a dysgu rhai ffeithiau am hanes yr adeilad a gwaith y gwleidyddion sy'n trafod materion amrywiol y tu

mewn iddi. Diddorol oedd clywed yr hanes tu ôl i'r campwaith o adeilad megis ymgais y pensaer i adeiladu model o goeden ar ben y Siambr, ac i bortreadu 'calon Cymru' ynghanol llawr y Siambr.



Wedi dychwelyd i adeilad Tŷ Hywel, rhannwyd y criw yn grwpiau



gwahanol, gan roi cyfle iddynt drafod â disgyblion o amryw o ysgolion eraill am faterion sy'n ymwneud â heddwch rhyngwladol. Trafodwyd sawl mater gwahanol, gan gynnwys newid hinsawdd, ffoaduriaid a safle Cymru yn y byd, gyda phob grŵp yn ffurfio cwestiynau i ofyn i

banel o Aelodau Cynulliad. Yn ateb y cwestiynau roedd Delyth Jewell o Blaid Cymru, John Griffiths o'r Blaid Lafur, Mark Isherwood o'r Ceidwadwyr a'r Ysgrifennydd Addysg, Kirsty Williams. Diddorol oedd

clywed eu hymateb i gwestiynau heriol y disgyblion, ond efallai'n fwy diddorol oedd gweld sut oeddent yn osgoi ateb y cwestiynau'n uniongyrchol! Braff hefyd oedd gweld yr aelod cynulliad a fagwyd yn y Priordy, **Llŷr Huws Gruffydd**, a alwodd heibio i'n gweld.



Yn y prynhawn, gwnaeth disgyblion Bro Myrddin gyflwyniad ar yr hyn y mae Pwyllgor Heddwch yr ysgol wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf, a chyflwynwyd tystysgrif '**Ysgol Heddwch**' i'r ysgol i gydnabod gwaith y pwyllgor. Ffurfiwyd y pwyllgor ychydig dros flwyddyn yn ôl, ac yn y cyfnod ers hynny rydym wedi cynnal nifer o weithgareddau, gan gynnwys gwasanaethau, dysgu gwersi ar heddwch a themâu



cysylltiedig i ddisgyblion blyneddod 7 ac 8 yr ysgol, cymryd rhan yn y cynllun 'Peace Rocks' lle buom yn ysgrifennu negeseuon heddwch ar gerrig, a threfnu mosaic enfawr o flodau pabi coch a gwyn er mwyn coffáu

canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae tri aelod ifanc o'r Priordy yn rhan o'r Pwyllgor Heddwch, sef **Iestyn, Lleucu a Steffan**, gyda Iestyn a Steffan ymhlith y chwech a fynychodd y daith i Gaerdydd. Rydym yn falch



iawn nid yn unig i gynrychioli'r ysgol wrth gyfrannu at lwyddiant Bro Myrddin i ennill tystysgrif Ysgol Heddwch, ond hefyd i gynrychioli'r Priordy, a rhoi ar waith yr hyn rydyn

ni wedi'i ddysgu ar hyd y blyneddod yn yr Ysgol Sul.





**CARDIAU NADOLIG
CYMORTH CRISTNOGOL**
*ar werth
yn y Priordy*



‘Agor y Gair’



***Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin***

**Boreau Mercher 26 Chwefror, a 4,11,18 Mawrth 2020
11.00 tan 12.00**

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Croeso cynnes iawn i bawb

CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN

**CWRDD CHWARTER CANA
DYDD IAU, 12 MAWRTH 2020
Y Gynhadledd am 10.30
Cyfarfod prynhawn am 1.30**



***Dyddiad a Lleoliad y Cwrdd Chwarter wedi hynny
14 Mai 2020 Capel Nebo, Llanpumsaint***



GWIRIONEDD
Elinor Wyn Reynolds

***Nofel ysgubol sy'n cynnig golwg
newydd ar un o ddigwyddiadau
mawr bywyd – marwolaeth. Mae'n
llawn dagrau, direidi a dathlu, ond
yn bennaf oll, mae'n gorlifo â
chariad.***

£8.85 (Gwasg y Bwthyn)

NIGEL YN YMDDEOL

Bydd Nigel Davies, sydd wedi bod yn Swyddog Plant a Ieuenctid Mudiad Ieuenctid Cristnogol Sir Gâr (MIC) ers ei sefydlu yn 2009 yn ymddeol ddiwedd y flwyddyn hon.



Cyflawnodd Nigel ddiwrnod da o waith dros ein heglwysy a'n hysgolion Sul dros y blynyddoedd. Ar ben hynny, bu'n weithgar â'r Cyngor Ysgolion Sul a hefyd yn ei eglwys, sef Capel Penuel Caerfyrddin

Yn berson brwdfrydig ac ymroddedig iawn, mae'n dyled yn fawr iddo am baratoi mor dda ar gyfer ein plant a'n hieuenctid. O ganlyniad i'w weithgarwch, mae'r to iau'n gallu mwynhau achlysuron cymdeithasol fel cystadlaethau pêl-droed a phêl-rwyd, mabolgampau a digwyddiadau fel oedfaon cyfoes a chlybiau Cristnogol gyda'r hwyr ac yn ystod gwyliau ysgoi.

A pheth bynnag y byddai Nigel yn ei drefnu, gwyddem y byddai Efengyl Iesu yn sbardun ac yn ganolog i'r cyfan bob amser.



Does dim dwywaith fod ei swydd yn un heriol, yn enwedig y dyddiau hyn, ond bu ymroddiad, dyfalbarhad a didwylledd Nigel a'i ffydd ddiysgog yn esiamp glodwiw i ni i gyd.

Dymunwn yn dda iddo yntau a Siân, ei briod, a'r teulu i'r dyfodol.

Diolch am bopeth Nigel,

CYNGOR YSGOLION SUL CYMRU



GWEFANNAU NEWYDD Y CYNGOR YSGOLION SUL



gair.cymru

Yn cynnwys deunyddiau fel gwersi ysgol Sul

cristnogaeth cymru

yn hybu a hyrwyddo gwybodaeth am unrhyw beth a phopeth yn
ymwneud â'r ffydd yng Nghymru

Hefyd mae'r Cyngor wedi etifeddu dwy wefan arall yn ddiweddar, sef
beibl.net a **gobaith.cymru**, wrth i *Gobaith i Gymru*, yr elusen a fu'n
gyfrifol am greu a datblygu'r gwefannau hyn ddod i ben.



Gwahoddiad gan Gyngor Ysgolion Sul Cymru
i

Oedfa o Ddiolchgarwch am waith
Gobaith i Gymru a beibl.net



Dydd Sadwrn 29 Chwefror 2020 am 2
Capel Penuel, Caerfyrddin

*Byddwn yn dathlu bod gwefan beibl.net bellach yn 18 oed ac yn lansio
dwy wefan Gristnogol newydd*

Pregethir gan y Parchedig Ddr Geraint Tudur

Cyflwynir tysteb i Arfon Jones a Gwenda Jenkins
Swyddogion Gobaith i Gymru

Gwneir casgliad at waith datblygu'r Beibl yng Nghymru
Gwybodaeth bellach: Aled Davies@ysgolsu.com

APÊL TEGANAU NADOLIG CYNGOR SIR GÂR

Menter leol sy'n darparu anrhegion Nadolig i deuluoedd
mewn angen

Dyddiad Olaf ar gyfer derbyn eich rhoddion
Dydd Sul, 8 Rhagfyr 2019

Awgrym o bris - £5 yr anrheg

Diolch ymlaen llaw am eich cefnogaeth



CWIS RHAGFYR



Mae pob ateb yn dechrau gyda'r llythyren 'RH'

Mae'r atebion i gyd yn y Beibl

1	RH						
2	RH						
3	RH						
4	RH						
5	RH						

Cliwiau

1	<i>Offer i symud y lludw oddi ar yr allor (Exodus 27: 3)</i>
2	<i>Hyfrder beiddgar (Deuteronomium 18:22)</i>
3	<i>----- dannedd neu ysgyrnygu dannedd. Mae'n dynodi ing dirdynol y colledig (Mathew 8:12)</i>
4	<i>Grawnwin wedi'u sychu (1 Cronicl 12:40)</i>
5	<i>Cyhoeddir barn Duw yn erbyn pawb sy'n camu dros y _____ (Seffaneaia 1:9)</i>

***Rhowch gynnig arni – a dod i adnabod y Beibl yn well!
Atebion yn y rhifyn nesaf***

ATEBION CWIS TACHWEDD

***1. Turtur 2 Talitha Cwm 3 Tiberius 4 Titus
5 Tarsus***



DRWS AGORED



FESTRI'R PRIORDY
BORE IAU 27 CHWEFOR 2020


Paned a Sgwrs am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11
Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 12 Chwefror 2019 am 7 yn y Festri

*Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch
wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd
os gwelwch yn dda*

Y GYMDEITHAS – NOS LUN 2 RHAGFYR 2019 – 7 – ALED SCOURFIELD



'CARU TI' - DUW

*Llyfr stori newydd i blant
sy'n olwg o'r newydd
ar stori'r Geni*

£2 (Cymdeithas y Beibl)

CARTREF PLAS Y DDERWEN GWASANAETH NADOLIG

gyda'n Gweinidog

Dydd Gwener, 6 Rhagfyr 2019 am 2.00pm

Croeso cynnes i bawb




*Ydych chi'n derbyn Dyddiadur neu Galendr 2020 adeg y
Nadolig? Os ydych, rhowch y dyddiau hyn i lawr yn syth!*

21 Mehefin 2020 - Pererindod yr Ofalaeth i Soar y Mynydd

18 Hydref 2020 - Cinio Dydd Sul yr Ofalaeth



I'R HOSAN?



BYD GWYN
Alan Llwyd


*Cofiant am fywyd a gwaith y bardd,
y llenor a'r ysgolhaig
T Gwynn Jones (1871-1949)*

£19.94 (Barddas)

COFIWCH DRYWRYN
Mari Emlyn

*Cyfrl ar ffenomenon murluniau
diweddaraf Cofwch Dryweryn
sydd wedi ymddangos ar hyd a
lled Cymru*

£7.99 (Y Lolfa)



MERCHED Y CHWYLDRO
Gwenan Gibbard

*Hanes y merched oedd yn canu
pop yng Nghymru yn y 60au a'r
70au (yn cynnwys 2 CD)*

£15.99 (Sain)



HIWMOR Y CILIE
Jon Meirion

*Straeon doniol a deifiol am
aelodau teulu enwog y Cilie*

£4.99 (Y Lolfa)





ROTA DARLLENWYR BORE SUL 2020



Ionawr	5	Huw a Mwynwen Jones	Gorffennaf	5	Luned Voyle
	12			12	
	19	Catrin H Jones		19	Eirlys Jones
	26	Miriam Wyrwoll		26	Yr Aelodau
Chwefror	2	Elen Marks	Awst	2	
	9			9	
	16	Gill Owens		16	
	23	Huw Michael		23	
				30	
Mawrth	1		Medi	6	
	8	Jayne Woods		13	Meleri LI O'Leary
	15	Chris Lloyd		20	Heledd Tomos
	22	Y Mamau		27	
	29	Elinor W Reynolds			
Ebrill	5	Mari Jenkins	Hydref	4	Adrian Evans (Nos)
	12	Carys Morgans		11	Elis Jones
	19	Peter H Griffiths		18	Lleucu Edwards
	26	PIP		25	Nansi Hayes
Mai	3	Sián Axford	Tachwedd	1	
	10	Ffion Parsons		8	Wyn Tegryn Evans
	17			15	June Thomas
	24	Tim Hayes		22	Alwen Owen
	31	Sulwyn Thomas		29	Llinos Jones
Miehefin	7	Delyth G Davies	Rhagfyr	6	Meinir Jones
	14			13	
	21			20	Alun Charles
	28	Alison Parsons		27	

A wnewch chi fwrw golwg dros y rhestr hon, os gwelwch yn dda, a chyfnewid dyddiad gyda pherson arall os nad yw'r Sul yn gyfleus i chi a rhoi gwybod i'r Gweinidog. Llauer o ddiolch



DYLETSWYDDAU GOFALWR / GWRESOGWYR Y MIS



Rhagfyr		Ionawr	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Chris Lloyd	Gareth Gravell	Alun Charles	Adrian Evans



BLODAU



Rhagfyr	1		Ionawr	5	Glenys Thomas
	8			12	
	15	Beti-Wyn James		19	Hilary Kinaston
	22			26	
	29				



PARATOI'R BWRDD CYMUN

Rhagfyr	1	Hwyr	Enid Wyn Jones a Jan Davies
Ionawr	5	Bore	Alison Parsons a Ffion Parsons



YMWELWYR



Tachwedd / Rhagfyr	Ein Gweinidog (Anrhegion Nadolig)
Ionawr / Chwefror	Janet Davies a Gloria Evans



DARLLENWYR



Rhagfyr	1	Meinir Jones	Ionawr	5	Huw a Mwynwen Jones
	8			12	
	15	Philip Jones		19	Catrin H Jones
	22	Alun Charles		26	Miriam Wyrwoll
	29				



CYHOEDDWYR



Rhagfyr	Chris Lloyd	Ionawr	Adrian Evans
---------	-------------	--------	--------------

NADOLIG: Y STORI

*I'w pherfformio yn y Gymraeg a'r Saesneg i bobl
Caerfyrddin yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg*

Profiad Nadolig Unigryw

***Cerddoriaeth .. Asynnod Byw Fidio ...
Actorion Lleol***



9 – 14 Rhagfyr 2019

	11.00	12.00	14.00	15.00	16.00
Llun 09.12.19	Eng	Cym	Cym	Eng	
Mercher 11.12.19	Cym	Eng	Eng	Cym	
Gwener 13.12.19	Eng	Cym	Cym	Eng	
Sadwrn 14.12.19	Cym	Eng	Eng	Cym	Eng


DYDD MAWRTH (10.12. 19) / DYDD IAU (12.12.19)

***Archebu ar gyfer grwpiau'n unig
(9.30 yn bosibl i ysgolion)
MYNEDIAD AM DDIM***



CYTŪN CAERFYRDDIN

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Lun, 13 Ionawr 2020 am 7
yn Festri Capel y Bedyddwyr Saesneg, Heol Awst



DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Catrin Wyn Davies, Lleucu Edwards a
Nan Lewis am y lluniau'r mis hwn.

NADOLIG YR OFALAETH

2019



DYDD SUL 8 RHAGFYR 2019
Y PRIORDY

Prynhawn Sul am 2.00
Gwasanaeth Nadolig
Diod ysgafn a Briwgacs i ddilyn



DYDD SUL 15 RHAGFYR 2019
Y PRIORDY

Y Bore am 10
Oedfa gyda'n Gweinidog

CANA
Gwasanaeth Nadolig am 2
Parti i ddilyn

CAPEL PENUEL
Nos Sul am 7.30
Plygain Merched y Wawr

DYDD SUL 22 RHAGFYR 2019
CANA

Oedfa Llith a Charol yr Ofalaeth am 10
Paned a Briwgacs i ddilyn

BANCYFELIN
Dathlu'r Nadolig yn y Gymuned
Gorymdaith drwy'r pentref yn cychwyn am 6
ac Oedfa Nadolig yn y Capel
Paned a Briwgacs i ddilyn a Pharti't Plant

BORE NADOLIG
Oedfa Undebol i'r teulu cyfan yn Y Priordy am 9 y bore gyda'n Gweinidog
a'r Bobl Ifainc

DYDD SUL 29 RHAGFYR 2019
Oedfa Undebol i'r Ofalaeth ym Mancyfelin am 10 gyda'n Gweinidog

Croeso i bawb



Dymuniadau da
i

Eleri James sy wedi symud i'w chartref newydd yn Llangain!





EIN BRAINT oedd derbyn 7 o bobl ifanc yn gyflawn aelodau yn yr Oedfa Gymun ar Sul cyntaf Tachwedd sef Gareth Jones, Betsan Elias, Gwenan Jones, Carina Sidhu, Elain Owen, Catrin Owen a Gwenllian Howells. Ein dymuniadau da i bob un ohonynt.

Ein llongyfarchiadau mawr i Elis Jones, Huw Jones, Alison Parsons, Elinor Wyn Reynolds a Jayne Woods ar gael eu hethol yn ddiagoniaid am gyfnod o saith mlynedd. Byddan nhw, ynghyd â'r Dr Huw Michael, ein Hysgrifennydd Ariannol newydd, yn cael eu derbyn i'r ddiagoniaeth ar Sul cyntaf Ionawr gan ein Gweinidog. Daw cyfnod pedwar yn y ddiagoniaeth l ben ddiwedd y flwyddyn hon, sef Eirlys Jones, Chris Lloyd, Gareth Gravell a Tim Hayes ac mae'n diolch yn fawr iddynt am eu cyfraniad nodedig dros y saith mlynedd diwethaf.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Dennis Jones sy wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforys a thri niwrnod yn ddiweddarach roedd yn dathlu pen-blwydd arbennig – ffigur crwn. Mae'n debyg i'r nyrsys ymuno i ganu 'Pen-blwydd Hapus' iddo! Dyn lwcus!! A dyma ninnau'n dyblu'r gân! Dymunwn yn dda hefyd i bawb arall sy'n anhwylyd y dyddiau hyn



Ar **Ar y Marc** ar **Radio Cymru** talodd Peter Hughes Griffiths deyrnged hyfryd i'r diweddar Gareth Owen (GO) Jones, un o 'hoelion wyth' Clwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin ac Uwch Gynghrair Cymru, gan ddwyn i gof nid yn unig ei gyfraniad helaeth i'r bêl gron ond hefyd i sawl maes arall yn ein tref a thu hwnt.

Ar **Pigion yr Ŵyl Gerdd Dant** ar **Radio Cymru** clywyd Cywydd Croeso Tudur Dylan Jones i'r Ŵyl a gynhaliwyd am y tro cyntaf erioed yn Llanelli. Yn ystod yr un rhaglen bu'r cyflwynydd Nia Lloyd Jones yn sgwrsio â Peter Hughes Griffiths, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ar Gyngor Sir Gâr ynghylch arwyddocâd ymweliad yr Ŵyl â Llanelli. Chwaraeodd Peter ran allweddol yn denu'r Ŵyl i Dre'r Sosban. A llongyfarchiadau i Lleucu Owen, Catrin Owen, Rhiannon Jones, Lis Davies a Lucy Jones a fu'n rhan o bartïon buddugol Ysgol Bro Myrddin yn yr Ŵyl. Hefyd roedd aelodau'r Priordy'n rhan o'r Côr a'r Côr Gwerin buddugol ac yn canu gyda Seingar. Un arall a gafodd lwyddiant gyda phartïon o Gaerdydd oedd Elin Llwyd.



Bu Tudur Dylan Jones ac Aled Evans ar **Raglen Dei Tomos** ar **Radio Cymru** yn trafod cyswllt yr Eisteddfod â Chaerfyrddin. Dylan ac Aled yw **awduron Ein Gŵyl, ein Tref ac Iolo** – Cyfrol Dathlu Daucanmnlwyddiant Uno'r Orsedd a'r Eisteddfod, Eisteddfod Caerfyrddin 1819.

Mae'n amlwg bod Tudur Dylan Jones a Mererid Hopwood wedi bod yn brysur yn paratoi dwy gyfres newydd o storïau a cherddi gwreiddiol sydd wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar gan Ganolfan Peniarth yn dwyn y teitl **Archwilio'r Amgylchedd yn y Dref** Maent wedi'u hanelu ar gyfer plant yn y Cyfnod Sylfaen (3-7 oed) gyda'r nod o gefnogi gwahanol feysydd dysgu a phrofiad gan ganolbwyntio ar archwilio a darganfod yn yr awyr agored.

Bu un o'r rhaglenni yng nghyfres gyfredol **Cynefin** ar **S4C** yn crwydro o gwmpas Caerfyrddin ar drywydd straeon cudd tref hynaf Cymru a chlywsom Jayne Woods yn sôn fel mae teuluoedd yn dod at ei gilydd am noson yng Ngwesty Pen y Baedd i fwynhau chwarae cerddoriaeth draddodiadol Cymru ar eu hofferynnau. Roedd Ethan, Iwan, Fflur, a Heledd yno hefyd. Bu Alun Charles ar **Prynhawn Da** ar **S4C** yn disgrifio'i gasliad o cofroddion yn dwyn arwyddlun ac arwyddair dwy dref glan-y-môr sy'n bwysig iddo, sef y Rhyl a'r Barri.



Yn **Golwg** yn ddiweddar yn y gyfres **Steil Y Tŷ** rhoddwyd sylw i Lys Gwyn, sef cartref ein Gweinidog, Beti-Wyn, yn Abergwili. Gwelir lluniau lliwgar o Beti-Wyn (a Llew y ci) a gwahanol rannau o'r tŷ mewn taeniad dwbl yn y cylchgrawn. Ar ôl sôn am nodweddion y tŷ sydd ar ffurf bwthyn ond wedi'i godi'n fodern ar iard hen orsaf drenau Abergwili mae Beti-Wyn yn mynd ymlaen i drafod pethau o bwys sydd yn ei chartref iddi hi.

Ein llongyfarchiadau i bobl ifanc y Priordy a gymerodd ran yn sioe Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn y Lyric, sef **Rhif 1 Heol Penlan** – ardderchog yn wir!




A da oedd clywed fod Beca Thomas, merch Owain a Lucy ac wyres Sulwyn a Glenys wedi'i dewis i gynrychioli Tîm Pêl-droed Merched Cymru Dan 13. Rhagorol - a phob lwc iddi!

CYNHALIWYD cyfarfod arbennig yn y **Gelli Werdd** (hen gartref y teulu) i lansio nofel newydd Elinor Wyn Reynolds, sef **Gwirionedd** ac yn **Yr Egin** i lansio cyfrol newydd Menna Elfyn, sef **Cwsg – am dro ac yn ôl**". Anrhegion arbennig ar gyfer yr hosan Nadolig!

Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn lonawr i'n
Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Alun Charles ☎ 01267 236037

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â Gwen Williams (Tir Ysgawen) ar golli'i nai, Wynford Thomas Daniels, Tir Banc, Llwynteg, Llannon ar 2 Tachwedd 2019.
Meddyliwn am y teulu cyfan yn eu hiraeth a'u galar.



Y SULLIADUR



Rhagfyr	1	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog Casgliad at Ganolfan Galw-i-mewn Eglwys y Bedyddwyr Saesneg. Oedfaon yn y Ffestri	Cymun
	8	<i>Bore P'nawn</i>	Ymarfer y Plant a'r Bobl Ifainc am 10 y bore ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig Gwasanaeth Nadolig y Priordy am 2. Diod ysgafn a briwgacs i ddilyn. Casgliad at yr Ysgol Sul. Casgliad olaf er cwblhau'r cyfrifon am y flwyddyn	
	15	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Gwasanaeth Plygain Merched y Wawr ym Mhenael am 7.30	
	22	<i>Bore Hwyr</i>	Oedfa i'r Ofalaeth yng Nghana gyda'n Gweinidog Dathlu'r Nadolig yn y Gymuned ym Mancyfelin gyda'n Gweinidog am 6	
	29	<i>Bore</i>	Oedfa i'r Ofalaeth ym Mancyfelin gyda'n Gweinidog	

BORE NADOLIG – OEDFA DEULU – Y PRIORDY – 9 - GYDA'N GWEINIDOG A'R BOBL IFAINC

Ionawr	5	<i>Bore Hwyr</i>	Cwrdd yr Ofalaeth gyda Huw a Mwynwen Jones a'r teulu. Derbyn Diaconiaid Newydd Ein Gweinidog	Cymun
	12	<i>Bore</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog.	
	19	<i>Bore P'nawn Hwyr</i>	Oedfa yng ngofal yr Aelodau Oedfa i'r Ofalaeth am 2 ym Mancyfelin yng ngofal yr Aelodau Oedfa dan nawdd Cytûn yn y Capel Wesle am 5.00 ar ddechrau'r Wythnos Weddi am Undod Cristnogol gyda'r Parchedig Ddr Matthew Hill	
	26	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC

✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant YN- Ymarfer Gwasanaeth y Nadolig GN – Gwasanaeth y Nadolig								
Rhagfyr					Ionawr			
1	8	15	22	29	5	12	19	26
✓YN	YN -10 / GN - 2	-	-	-	-	CP	✓	✓